

Cofion

- Anfonwn ein cofion heddiw at nifer o'n haelodau sydd ddim yn dda eu hiechyd. Gweddiwn y bydd Harold Pierce (Llanefydd) yn profi agosrwydd yr Arglwydd tra'n aros ei lawdriniaeth yn Ysbyty Broadgreen. Cofiw'n hefyd am Harold Lloyd (Tanyfron), Mair Roberts a Robert Roberts (Llanefydd), Victor Vaughan (Saron), a Trefor Jones (Cefn Meiriadog) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd, a Menna Owen (Cefn Meiriadog) sydd yn parhau yn yr Inffirmari ar hyn o bryd ond yn gobeithio symud i Gartref Yr Hen Ddeondy, Llanelwy yn ystod y dyddiau nesaf. Cyflwynwn hwy oll a'u teuluoedd yn dyner i ofal yr Arglwydd, gan ddiolch am y sicrwydd ei fod yn gwrandao'n gweddiâu, ac am addewid O'i ffyddlondeb.
- Mae Heulwen Roberts (Henllan) wedi gadael yr ysbyty erbyn hyn ac wedi symud i fyngalo gyda gofal yn Wynne's Parc, Dinbych. Hyderwn y bydd yn profi Duw yn rhwydd wrth iddi gartrefu yno a diolchwn i Dduw am bob gofal a gafodd tra'n yr ysbyty.
- Mae eraill o'n plith yn galaru am anwyliaid a gweddiwn y byddant oll yn adnabod cysur cwmni Duw a'i dangnefedd dros y dyddiau anodd hyn.

Arian Sasiwn y Chwiorydd

Bydd eich Trysorydd yn falch o dderbyn unrhyw gyfraniadau tuag at gasgliad Sasiwn y Chwiorydd mor fuan â phosibl, os gwelwch yn dda.

Yn Eisiau

Soffa gornel a/neu sofffa gyffredin (sy'n ateb gofynion diogelwch tân) ar gyfer y bobl ifanc sy'n cyfarfod yn y Granar. Os gallwch helpu, plis cysylltwch â Dawn Wilks ar 07826 852110.

I ddod

- **New Word Alive** ym mharc gwyliau Prestatyn Sands, Prestatyn LL19 7LA Mawrth 31ain – Ebrill 5ed. Wythnos o wyliau Beiblaidd i arfogi ac adfywio corff Crist. Rhaglen ieuencid llawn yn rhedeg gydol yr wythnos. Tocynnau ymwelwyr dydd ar gael: www.newwordalive.org
- **LLANW** - Gŵyl deuluol yng Nghei Newydd rhwng Ebrill 9fed-13eg ar gyfer Cristnogion led-led Cymru – plant, ieuencid, teuluoedd, myfyrwyr, pobl sengl a pharau o bob oed! Mwy o fanylion ar y wefan www.llanw.org neu drwy holi Rhodri.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 11^{eg} Mawrth 2012

"Ni fethodd gweddi daer erioed
â chyrraedd hyd y nef,
ac mewn cyfyngder, f'enaid, rhed
yn union ato ef." (William Williams)

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Syrthiodd Elin oddi ar ei chadair isel, newydd y dydd o'r blaen – dydi hi ddim wedi ffeindio'i thraed yn iawn eto – a dyma edrych rownd yn syth am mam a dad cyn dechrau crio! Cael ei chodi a'i chofleidio wedyn a'r dagrau'n arafu!

Pan ddaw newyddion annisgwyl, beth fydd ein hymateb cyntaf? Galw ar Dduw? Edrych amdano? Hyd yn oed i'r rhai nad ydynt yn proffesu cred, ac er eu bod yn cymryd enw Duw yn ofer, yn aml bydd yr ymadrodd "Oh my g - -" i'w glywed yn syth. Mae'n rhaid ei fod yn rhywbeth greddfoll iawn ynom i alw ar Dduw pan gawn ein dychryn, yn union fel y gwnaeth Elin!

Pan gawn ein dychryn gan yr annisgwyl, anodd iawn yw derbyn nad ydi popeth yn ein dwylo ni ac anoddach fyth yw derbyn fod pethau drwg iawn yr olwg yn digwydd i'r bobl orau. Beth ydi gwerth gweddi mewn amgylchiadau fel hyn? Gweddio, galw ar Dduw, ydi ymateb greddfoll y Cristion. Mewn gweddi a thrwy weddi yr ydym yn dod â phob digwyddiad yn ôl at Dduw. Gosod pob peth wrth ei draed a chyffesu pa mor fach ydym – dyna a wnawn wrth weddio. Mewn gweddi daer mi rydan ni'n dweud wrth Dduw mai yn ei law o y mae pob peth, a'n bod yn trystio mai Ef sydd â'r gair olaf ymhob digwyddiad a phrofiad.

Mae gweddi yn agor ein llygaid i weld nad oes ganddom le i obeithio mewn dim yn y byd yma – does 'na ddim nefoedd i ni ar y ddaear – mae hynny'n amlwg iawn. Mewn byd syrthiedig yr ydym yn byw. Cawn ein hatgoffa o hynny'n ddyddiol, ond, mae 'na fwy iddi na'r byd yma onid oes?

Ond y mae gweddi hefyd yn dod â ni at Air Duw sy'n dweud bod yna afon a'i ffrydiau yn llawenhau dinas Duw (Salm 46) a bod i ni Waredwr, yr Iesu gogoneddus! (Colosiaid 1:11)

Does 'na ddim ateb hawdd i'w gael i'r hyn sydd yn brofiad i ni yn y byd ond y mae'r Gair yn ein hatgoffa mai trwy'r profiadau sy'n gwneud i ni deimlo'n wan y down yn nes at Dduw ac y profwn ei ras Ef ar ei orau yn ein cynnal.

Dyweddodd Duw wrth Paul: "Digon i ti fy ngras i; mewn gwendid y daw fy nerth i'w anterth." A gallodd Paul ddweud wedyn: " Am hynny yr wyf yn ymhyfrydu er mwyn Crist mewn gwendid, sarhad, gofid, erledigaeth, a chyfyngder. Oherwydd pan wyf wan, yna rwyf gryf." (2 Corinthiaid 12: 9-10)

Gweddiwn dros ein gilydd heddiw yn yr oedfaon ac ar ein haelwydydd ar i bawb sy'n profi gwendid, sarhad, gofid, erledigaeth neu gyfyngder gael adnabod nerth Duw - fel breichiau mam a thad yn ein codi!

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, a bydd Aneurin a Rhodri yn ateb ein cwestiynau yn dilyn y gyfres ddiwethaf o bregethau ar 1 a 2 Thesalonïaid. Bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Llun • Cyfarfod o **Christian Viewpoint** yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinmel am 7.30 yng nghwmni Fiona Clarke, Cydlynnydd Prosiect Cymorth i Ferched Aberconwy. Thema ei sgwrs fydd "Codi Ymwybyddiaeth o Gamdrin yn y Cartref". Mynediad: £3 yn cynnwys bwffe. Mwy o fanylion gan Mair (870632).
- Mawrth
Mercher • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
• **Dod i Adnabod – Grŵp Rhodri** yng Nghefn Meiriadog am 7.30.
• Grwpiau Tai **Adnabod** yn cyfarfod am 8.00.
• Cyfarfod o **Gymdeithas Chwiorydd Annibynwyr Dyffryn Clwyd** yng Nghapel Lôn Swan, Dinbych am 7.00 yng nghwmni Mr Stan Lyall. Ceir yno hefyd stondin Dewch a Phrynwch.
- lau • **Noson ddwyieithog i athrawon Ysgol Sul, arweinwyr plant a ieuentid a gweithwyr ysgolion** yng Nghapel Berea Newydd, Bangor LL57 2AX am 7.00 (ac yng Nghapel Bethesda, Yr Wyddgrug Mai 23ain). Am fwy o fanylion, ffoniwch Gwyn Rhydderch ar 07979 860537.
- lau • **Cyfarfod Plant** yn Llanefydd am 3.15.
• **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel Clwyd Street, Y Rhyl am 6.00.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Elen Elias, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00 ac yn bedyddio Owen Gwynedd, mab bach Ifor a Mari Lloyd, yn ystod y gwasanaeth. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Llansannan

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- lau Cinio Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Saron a Pheniel

- Sul yma Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd Eang y Chwiorydd ym Mheniel am 10.00 a'r Ysgol Sul am 2.00. Yn Saron, cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd Eang y Chwiorydd am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Bydd Pwyllgor i drefnu Sasiwn y Plant ar ôl y cyfarfod.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Cynhelir Gwasanaeth i gyflwyno Apêl Viva Guatemala yn Henllan am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul am 2.00. Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd Eang y Chwiorydd yn Groes am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00. Cynhelir yr Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

- Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.